Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
15 Ionawr 2018

SL(5)162 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017

Gweithdrefn: Negyddol

Yn unol ag adran 43(4B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988, mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ar gyfer Cymru ("y cynllun").

Mae'r Gorchymyn yn darparu y bydd hereditamentau sy'n bodloni'r amodau a nodir yn erthyglau 7 (amodau gwerth ardrethol); 8 (amodau gofal plant) neu 9 (amodau swyddfa bost) yn cael rhyddhad o dan y cynllun.

Deddf Wreiddiol: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar: 6 Rhagfyr 2017

Fe'u gosodwyd ar: 13 Rhagfyr 2017

Yn dod i rym ar: 8 Ionawr 2018